

Cofnodion Cyfarfod y 4ydd Chwefror 2020

Presennol :- Y Cadeirydd **Gareth Griffiths** a'r Cynghorwyr, Richard Ll. Jones, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Martin Davies, Jane Pierce, Idris Thomas a Lowri Hughesl Croesawyd Y Cynghorydd Elwyn Jones

Gweddi: Offrymwyd gair o weddi gan Richard LL. Jones

Ymddiheuriadau.

R Hefin Williams, Rhian Evans-Hill, Gwawr Wyn Roberts, Emma Chappell a Aled Green

Datgan buddiant

Dim

Cofnodion Cyfarfod 7fed Ionawr 2020

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Elfed Wyn Williams **(1)**

Richard Ll. Jones**(2)**

Materion o'r cofnodion

Llythyr Diolch – Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Gwion Llywelyn.

Arbed am Byth – Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau fod adolygiad yn cael ei gynnal gan Sefydliad Ymchwil Adeiladau, ac yna bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad unwaith bydd wedi ei gwblhau.

Ad daliad Llwybrau – Derbyniwyd adaliad o £468.01 gan Cyngor Gwynedd tuag at y gôst o dorri llwybrau cyhoeddus eleni.

Banc – Derbyniwyd £15 yn ôl gan y banc yn dilyn cwyno am y gosb oedd ddim yn fai arnom ni. Nid oes esboniad wedi cyrraedd hyd yn hyn.

Eco'r Wyddfa – Nododd Richard Ll. Jones fod trafodeuthau yn mynd ymlaen a bod cyfarfod heno ynglyn a trosglwyddo'r awenau i bwyllgor newydd.

LLwybr 139 – Nid yw'r clerc wedi clywed dim mewn ymateb i llythyr ynglyn a'r llwybr yma, er fod y Cynghorydd Elwyn Jones yn dweud ei fod wedi cyfarfod a swyddog o'r cyngor i gerdded y llwybr. Mae yn ddyletswydd o ran cwrteisi l ddechrau ein bod yn cael ymateb i hyn. Y clerc i gysylltu a'r swyddog perthnasol yn Cyngor Gwynedd.

Llwybr Stablau – Nodwyd fod coeden wedi dod lawr ar y llwybr yma yr wythnos diwethaf, ac yn dilyn cysylltu a'r cyngor mae'r goeden wedi cael ei chlririo oddi ar y llwybr yr wythnos yma.

Gohebieuthau a Materion Eraill

Argyfwng Hinsawdd – Derbyniwyd gohebiaeth o neges drydar am gamau gwreithredol mae Cyngor Dinas Bangor wedi ei gosod y neu lle l ymateb l'r argyfwng. Penderfynwyd rhoi hwn yn bwnc ar ein rhaglen mis Mawrth l drafod ymhellach.

Coed Cymru – Derbyniwyd lythyr a chynllun l blannu coed o dan cynllun Glasdir yn ardal Afon Goch, Deiniolen. Penderfynwyd ymateb l ddatgan ein bod yn cytuno mewn egwyddor, cyn belled a bod perchnogion y tira neb yn y tai cyfagos yn gwrthwynebu.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

Ael y Garth, - Codi adeilad amaethyddol er mwyn storio gwair, offer a choed tan, ynghyd

a chreu mynedfa newydd i'r briffordd.

Ty Capel Bethel – Parcio. Angen gwybod beth ydi statws yr hen lon tu allan l'r capel.

Diweddariad LLeCHI

Mae trafodaeth a syniadau yn symud ymlaen ac o bosib bydd £25,000 o arian l'r cynllun a £9,000 o arian ar ddiwyddiadau diwylliannol. Mae angen cael y cynllun at ei gilydd, er mae'n bosib y bydd yna estyniad ymhellach na diwedd Mawrth. Diolch l'r criw bychain sydd yn cydweithio yn ddygun tuag at cyflwyno cynllun at ei gilydd.

Adroddiad Cyfarfod o'r is bwyllgor Meysydd Chwarae- Cafwyd cyfarfod cyntaf gyda'r swyddogion o'r Cyngor yr wythnos diwethaf. Mae'r Is bwyllgor yn gweithio drwy gasglu yr holl wybodaeth posib ynglyn a'r parciau amesydd chwarae. Y sefyllfa ydi ar hyn o bryd na fydd y Cyngor Sir yn cynnal gwasanaeth l'r manau yma, ond yn hytrach yn tynnu unrhyw offer l fwrdd sydd wedi dirywio, ac yn y pen draw ni fydd yna barciau chwarae.

Mae'r Cyngor Cymuned felly yn cynnal trafodeuthau l gael y pictiwr cyflawn, ac yn cyfarfod yn fisol, a bwydo y wybodaeth l gyd yn ôl l'r cyngor llawn. Ni fydd dim penderfyniad yn cael ei wneud heb dderbyn hyn ac ystyried yr oblygiadau o unrhyw benderfyniad. Y gobaith yw casglu yr holl wybodaeth, a cyflwyno hyn l'r cyngor yn mis Gorffennaf, yna gwneud penderfyniad ym Mis Medi, fel os bydd angen, y gallwn ystyried y gôst l fewn yn gyllideb Y Cyngor.

Nodwyd fod angen cysylltu yn gofyn beth sydd yn digwydd neu pwy sydd yn gyfrifol am feysydd chwarae sydd yn cael eu creu wrth adeiladu stadau o dai newydd. Y clerc l gysylltu a 'r swyddogion l ofyn ymateb l hyn.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Is bwyllgor ar y 4ydd o Fawrth am 6:00 yn Ysgol Penisarwaun.

O gwmpas y Bwrdd

Kirsty Williams yn dweud yr wythnos diwethaf nad oedd gan Gymru hanes. Ar ba sail? Ysgrifennu yn gofyn am esboniad a cynnig iddi ddod draw i'r ardal i gael ei harwain drwy hanes ardal gan cynnig taith gerdded drwy chwarel Dinorwig yng nghwmni haneswyr profiadol y fro.

Llwybr Cyhoeddus Cefn Capel Cysegr – Y tiffeddianwr yn fodlon i ni drefnu i dorri y gordyfiant sydd yn creu tyfiant peryg ar y llwybr..

Bin Halen – Wedi cyrraedd Bro Elidir o'r diwedd.

Gohebiaeth trwy law Martin Davies gan breswlydd yn Brynrefail. Y clerc i ymateb l'r pwyntiau a'u cyfeiro at yr Asiantaethau perthnasol.

Pafin Tan y Buarth – Mae Swyddog o'r Cyngor wedi cytuno i ddod allan i weld a trafod y broblem gyda Cadeirydd y Cyngor Cymuned.